# PWYLLGOR ARCHWILIO PERFFORMIAD

Cofnodion cyfarfod o’r Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Ty Russell, Y Rhyl, Dydd Iau, 17 Gorffennaf 2014 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Richard Davies, Geraint Lloyd-Williams, Peter Owen, Arwel Roberts (Is-Gadeirydd), Gareth Sandilands a David Simmons (Cadeirydd)

Aelodau Cyfetholedig – roedd Gill Greenland, Dawn Marjoram a Gareth Williams yn bresennol ar gyfer Eitem 5 ar y Rhaglen.

Aelodau'r Cabinet – roedd y Cynghorydd Barbara Smith yn bresennol ar gyfer Eitem 6 ar y Rhaglen

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM); Pennaeth Addysg (KE); Rheolwr Tîm Partneriaethau a Chymunedau (LG); Swyddog Arweiniol: Llyfrgelloedd, y Celfyddydau a Phobl Ifanc (RE); Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (GW); Rheolwr Gwasanaethau Adnoddau Dynol (CR); Rheolwr Archwilio (BS); Rheolwr Gwybodaeth Gorfforaethol (CB); Uwch Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol (GL); Cydlynydd Craffu (RhE), a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ)

## PWYNT O WYBODAETH

Gan y byddai’r Cadeirydd – y Cynghorydd David Simmons yn cyrraedd yn hwyr ar gyfer y cyfarfod llywyddodd yr Is-Gadeirydd - y Cynghorydd Arwel Roberts yn ystod rhan gyntaf y cyfarfod.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Meirick Davies, Colin Hughes a Dewi Owens ynghyd â'r Aelodau Cyfetholedig Debra Houghton a Nicola Lewis

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni chodwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb personol neu fuddiannau sy'n rhagfarnu.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chafwyd unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2014.

**Materion yn codi -**

Tudalen 8 - Eitem 8 Strategaeth Ystâd Amaethyddol - Dywedodd y Cydlynydd Archwilio fod copi o adroddiad Fforwm Gwledig CLILC 'Ffermydd Sirol Cymreig', a ddosbarthwyd i aelodau cyn y cyfarfod diwethaf wedi'i anfon at aelodau'r Gweithgor Ystâd Amaethyddol ar gais yr Aelod Arweiniol, Y Cynghorydd Huw Jones. Byddai adroddiad ar berfformiad yr Ystâd Amaethyddol yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor ym mis Tachwedd a byddai’r strategaeth hirdymor ddrafft ar gyfer yr Ystâd Amaethyddol yn cael ei chyflwyno ym mis Ionawr 2015.

Tudalen 10 - Eitem 9 adroddiad blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2013/14 – Roedd y wybodaeth y gofynnwyd amdani gan yr aelodau ar y Prosiect Taith i Waith wedi ei chynnwys ym mrîff gwybodaeth y Pwyllgor (a ddosbarthwyd yn flaenorol).

***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2014 fel cofnod cywir.*

**5 GWEITHGARWCH CYN AROLWG MEWN YMATEB I ADRODDIAD ESTYN AR ANSAWDD GWASANAETHAU ADDYSG YR AWDURDOD LLEOL I BLANT A PHOBL IFANC YN SIR DDINBYCH.**

Cyflwynodd y Rheolwr Partneriaethau a Chymunedau adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn diweddaru'r aelodau ar y cynnydd a wnaed wrth fynd i'r afael ag argymhellion Estyn yn dilyn arolwg 2012 ers yr adroddiad diwethaf a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Ionawr 2014.

Atgoffwyd yr Aelodau am ganlyniad cadarnhaol yr arolwg gyda dim ond dau argymhelliad ar gyfer gwella ymhellach -

(1) Gwella cywirdeb Asesiadau Athrawon ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3

(2) Adnabod pob gwasanaeth plant a phobl ifanc yn Sir Ddinbych a sefydlu system effeithiol i fesur effaith y gwasanaethau hyn i gynorthwyo’r Awdurdod a’i bartneriaid i benderfynu a yw’r gwasanaethau hyn yn cynnig gwerth am arian.

Adroddodd y Pennaeth Addysg am y gwaith a wnaed i fynd i'r afael â'r argymhelliad cyntaf ac roedd yr aelodau'n falch o nodi bod y canlyniadau Cyfnod Allweddol 3 a ddilyswyd yn dangos bod yr argymhelliad hwn wedi derbyn sylw. Roedd y Dangosydd Pwnc Craidd wedi codi am y seithfed flwyddyn yn olynol - gan godi o 75% yn 2013 i 83.3% yn 2014. Roedd yn bwysig i'r Cyngor sicrhau bod canlyniadau disgyblion ar ddiwedd addysg gynradd ac uwchradd yn cael eu cynnal a'u gwella. Yng ngoleuni'r canlyniadau gwell cytunodd y Pwyllgor y gellid monitro'r argymhelliad hwn yn y dyfodol drwy archwilio canlyniadau arholiadau allanol ac asesiadau athrawon bob blwyddyn, sef rhywbeth y mae’r Pwyllgor yn ei wneud yn yr hydref bob blwyddyn. Eleni byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod mis Hydref y Pwyllgor, a byddai cynrychiolydd o GwE (Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol) hefyd yn bresennol i gyflwyno adroddiad blynyddol ar gynnydd. Wrth

ymateb i faterion a godwyd gan yr Aelod Cyfetholedig Dawn Marjoram, cadarnhaodd y Pennaeth Addysg fod ysgolion arbennig yn cael eu cefnogi yn yr un modd o ran archwilio a systemau ar waith, ond nid yw data yn cael ei fesur yn erbyn ysgolion prif ffrwd.  Roedd yn derbyn bod anawsterau o ran y data cymharol ac yn cydnabod bod ysgolion arbennig yn gweithio'n galed i olrhain cynnydd disgyblion.

Derbyniodd y Pwyllgor fod yr ail argymhelliad yn llawer mwy anodd i'w ddiffinio a'i fesur.  Dywedodd y Swyddogion, mewn ymgais i fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn fod ymarfer mapio ar y gweill i lunio cronfa ddata o wasanaethau i blant a phobl ifanc yn y sir ac i nodi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth.  Codwyd pryderon ynghylch y diffyg darpariaeth yn ardal Dyffryn Dyfrdwy ar gyfer y rhai sydd ag anghenion arbennig a chytunodd swyddogion i ystyried y ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion arbennig yn yr ardal honno, gan gynnwys opsiynau i'w cynnwys mewn gweithgareddau plant ac ieuenctid presennol.  Byddai holiaduron yn cael eu cwblhau gan y sefydliadau ym mhresenoldeb swyddogion y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a fyddai'n pwysleisio'r angen am atebion onest am y gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd er mwyn sicrhau y gallai unrhyw fylchau a nodwyd gael eu hystyried ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol.  Wrth ymateb i gwestiynau pellach ymhelaethodd y swyddogion ar y broses fonitro sydd ar waith, cyfranogiad sefydliadau partner eraill o fewn y broses a'r amserlenni ar gyfer casglu a dadansoddi data.  Tynnwyd sylw at bwysigrwydd hyrwyddo argaeledd gwasanaethau a chytunwyd i dderbyn adroddiad pellach ar ôl i'r gwaith mapio gael ei gwblhau.

***PENDERFYNWYD*** -

*(a) nodi'r wybodaeth a ddarparwyd o ran cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion Estyn;*

*b) yn sgil y gwelliant a gynhaliwyd yng nghywirdeb asesiadau athrawon ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, nid oedd angen adroddiadau annibynnol pellach ar y mater hwn.  Yn y dyfodol byddai'r agwedd hon yn cael ei monitro drwy'r adroddiad blynyddol a gyflwynir i'r Pwyllgor ar ganlyniadau arholiadau allanol ac asesiadau athrawon, ac*

*(c) unwaith y bydd y gwaith mapio wedi ei gwblhau, bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn gynnar yn 2015 yn amlinellu canlyniadau'r gwaith hwnnw a chynigion ar sut y gellid mesur effaith a gwerth am arian y gwasanaethau i blant a phobl ifanc ar draws y sir.*

**6 FFRAMWAITH ADNODDAU DYNOL**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Adnoddau Dynol adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn ymwneud â'r risg nad oedd y Fframwaith AD yn cefnogi amcanion y sefydliad ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r Cynllun Gwella AD a chynlluniau yn y dyfodol i liniaru'r risg hwn.

Darparodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd ychydig o gefndir a chyd-destun i'r adroddiad a dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Adnoddau Dynol wrth y Pwyllgor am y mesurau a gymerwyd gan y

Gwasanaeth AD yn ystod y deunaw mis diwethaf i wella'r gwasanaeth craidd ac i ddarparu gwasanaeth gwell ar gyfer y defnyddiwr gwasanaeth. Nododd yr Aelodau bod 90% o'r tua 360 o gamau gweithredu yn y Cynllun Gwella AD bellach wedi eu cyflwyno. Adroddodd y Rheolwr Archwilio ar adolygiad dilynol diweddar o'r gwasanaeth a gynhaliwyd gan Archwilio Mewnol a fyddai'n cael ei gyhoeddi cyn hir, a fyddai'n rhoi sicrwydd bod y Gwasanaeth wedi gwella ac nad oedd unrhyw feysydd newydd o bryder. Roedd ailstrwythuro gwreiddiol y Gwasanaeth a'i fodel darparu wedi bod yn rhy uchelgeisiol gyda disgwyliadau rhy uchel gan nad oedd y systemau TG perthnasol ar waith i gyflwyno'r strategaeth. Serch hynny, roedd staff AD yn ymroddedig ac yn barod i symud ymlaen i gam nesaf y cynllun gwella a oedd yn canolbwyntio ar reolwyr a'r cymorth a'r offer y mae eu hangen arnynt. Cydnabuwyd hefyd, er bod y System Rheoli Cofnodion Electronig a Dogfennau (EDRMS) wedi golygu ffordd newydd o weithio ar gyfer pob aelod o staff y Gwasanaeth, roedd wedi arwain at ddull mwy diogel o gadw gwybodaeth bersonol.

Ymatebodd y swyddogion i gwestiynau'r aelodau yn cadarnhau'r defnydd llwyddiannus o EDRMS a chynlluniau yn y dyfodol i ddefnyddio capasiti presennol mewn systemau TG eraill. O ran hyfforddiant roedd gan y Gwasanaeth gyfanswm o 35 aelod o staff a hyfforddwyd bob pythefnos, gyda staff a oedd yn absennol oherwydd salwch neu wyliau yn elwa o 'gynllun cyfeillio' er mwyn dal i fyny ar unrhyw hyfforddiant a gollwyd. O ran arbedion posibl o fewn y Gwasanaeth i gyfrannu at raglen effeithlonrwydd corfforaethol y Cyngor, dywedodd y swyddogion y byddai opsiynau arbedion posibl yn cael eu cyflwyno i aelodau mewn un o'r cyfarfodydd cyllideb a raglennwyd.

Er bod y gwelliannau a wnaed o fewn y Gwasanaeth â'r potensial i leihau'r sgôr risg gweddilliol ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol, dywedodd y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd eu bod yn fodlon i'r Fframwaith AD aros ar y Gofrestr hyd y gellir rhagweld gan y byddai hyn yn gwarchod rhag hunanfoddhad. Dywedodd y Cynghorydd Barbara Smith, Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Pherfformiad hefyd fod y Gwasanaeth AD yn ymddangos fel un o'i blaenoriaethau yn y Cynllun Corfforaethol.

Llongyfarchodd y Pwyllgor y Gwasanaeth a'r Rheolwr Gwasanaethau Adnoddau Dynol am y gwelliannau a gyflawnwyd hyd yma a -

***PENDERFYNWYD,*** *ar ôl ystyried y wybodaeth a ddarparwyd am y cynnydd a wnaed wrth fynd i'r afael â'r risg a nodwyd yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol, gofyn bod adroddiad gwybodaeth yn cael ei gyflwyno i'r aelodau mewn chwe mis yn amlinellu'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r Cynllun Gwella AD a'r camau gweithredu a nodwyd ac a weithredwyd yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad yn dilyn yr Archwiliad Mewnol.*

Ar yr amser hwn (10.45 a.m.) cafwyd egwyl ar gyfer lluniaeth.

## 7 ADRODDIADAU IECHYD A DIOGELWCH

Cyflwynodd y Rheolwr Gwybodaeth Corfforaethol adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn rhoi trosolwg o'r materion sy'n gysylltiedig ag adrodd am ddigwyddiadau iechyd a diogelwch a'r camau a gymerir i ymdrin â hwy. Gofynnwyd

am yr adroddiad gan y Pwyllgor Archwilio yn dilyn ystyried yr Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ym mis Mai 2014. Er mai'r bwriad gwreiddiol oedd gwahodd y darparwr meddalwedd (Civica) i fynychu'r cyfarfod ystyriwyd wedyn ei bod yn fwy priodol i adolygu ac yna yn datrys y materion yn fewnol.

Darparwyd rhywfaint o wybodaeth gefndir yn ymwneud â datblygu'r system adrodd am ddigwyddiadau iechyd a diogelwch ynghyd â chyfranogiad y Tîm System Rheoli Cofnodion Electronig a Dogfennau (EDRMS); TGCh Corfforaethol, a Civica yn y broses honno. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor am y camau a gymerwyd gyda golwg ar fynd i'r afael â'r problemau a gafwyd gyda chategoreiddio mathau o ddamweiniau ar adran Iechyd a Diogelwch y System EDRM, a arweiniodd at nifer uchel o ddamweiniau a ddosbarthwyd fel 'Arall' ac 'Amherthnasol' yn cael eu hadrodd ar adroddiadau ystadegol rheolaidd y Gwasanaeth. Arweiniodd hyn at swyddogion yn gorfod edrych ar bob cofnod er mwyn nodi tueddiadau neu broblemau cyn y gallent ddechrau mynd i'r afael â hwy. Dywedodd y Swyddogion fod y swyddogion Iechyd a Diogelwch, EDRMS a TG wedi gweithio'n agos ers i'r Pwyllgor fynegi pryderon ynghylch y broblem ym mis Mai. Nodwyd ers hynny mai'r ffurflen gwe oedd gwraidd y broblem. Byddai'r categorïau 'Arall' ac 'Amherthnasol' yn cael eu tynnu oddi ar y ffurflen a byddai meysydd ychwanegol yn cael eu cynnwys er mwyn galluogi adroddiadau manwl a diffiniol. Byddai rhai enghreifftiau o adrodd am achosion 'Arall' neu 'Amherthnasol' yn digwydd hyd nes y bydd y system well yn gwbl weithredol ac y byddai'r cyfnod adrodd cyfan yn dechrau ar ôl gweithredu'r system well yn llawn. Cyfeiriwyd hefyd at nifer o faterion eraill sy'n gysylltiedig â'r system a chytunwyd ar gamau gweithredu i ymdrin â hwy i'w cwblhau erbyn mis Hydref 2014

Mewn ymateb i gwestiynau cadarnhaodd yr Uwch Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol fod camau wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r materion wedi bod yn gyflym ar ôl cynnwys y Pwyllgor ac roedd yn hyderus y byddai'r problemau a nodwyd yn cael eu datrys yn foddhaol ac yn amserol gan sicrhau system addas at y diben. Byddai'r costau ychwanegol ar gyfer gwella ac ymestyn y system EDRMS yn cael eu hariannu o'r gyllideb EDRMS bresennol. Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd a'r camau gweithredu er mwyn sicrhau y darperir data ystyrlon o ran cofnodi digwyddiadau iechyd a diogelwch ac wedi hynny -

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r camau a gymerwyd hyd yma i ganfod y materion sy'n gysylltiedig ag adrodd am y digwyddiadau iechyd a diogelwch a'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â hwy.*

## 8 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Cyflwynwyd Adroddiad gan y Cydlynydd Archwilio (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn gofyn i'r Aelodau adolygu rhaglen waith y Pwyllgor ac yn rhoi diweddariad am faterion perthnasol.

Gofynnodd y Cynghorydd Arwel Roberts bod y Polisi Cludiant Ysgol yn eitem ar gyfer archwilio yn y dyfodol ac adroddodd y Prif Weithredwr ar feysydd o'r polisi sy'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Cytunwyd bod y polisi newydd drafft yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor archwilio cyn ei gyflwyno i'r Cabinet i'w gymeradwyo. Nododd

Aelodau hefyd y cynnig bod yr holl eitemau addysg yn y dyfodol yn cael eu hystyried gan y pwyllgor hwn.

Rhoddodd y Cydlynydd Craffu ddiweddariad i'r aelodau ar y Grŵp Tasg a Gorffen Gwasanaethau Oedolion a Gofal Cymdeithasol a datblygu arfarniad opsiynau ar gyfer darparu yn y dyfodol. Byddai'r Grŵp yn cyfarfod am y tro olaf yr wythnos ganlynol, er mwyn cwblhau eu hadroddiad. Atgoffwyd yr Aelodau hefyd am y cynnig i sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen Tai Fforddiadwy i archwilio amryw faterion yn ymwneud â thai fforddiadwy. Gofynnwyd i'r Pwyllgor benodi cynrychiolydd a dirprwy ar y Grŵp.

***PENDERFYNWYD -***

*(a) y dylid cymeradwyo'r rhaglen gwaith i'r dyfodol fel y manylir yn Atodiad 1 yr adroddiad, a*

*(b) bod y Cynghorwyr Colin Hughes a Geraint Lloyd-Williams yn cael eu penodi'n gynrychiolydd a dirprwy gynrychiolydd y Pwyllgor yn y drefn honno ar y Grŵp Tasg a Gorffen Tai Fforddiadwy.*

**9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU**

Adroddodd cynrychiolwyr y Pwyllgor ar eu presenoldeb mewn cyfarfodydd fel a ganlyn -

Adroddodd y Cynghorydd Arwel Roberts am gyfarfod gyda Phennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'r Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol i drafod perfformiad sy'n ymwneud â chynnal cynadleddau amddiffyn plant a godwyd yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor. Canmolodd y gwaith sy'n cael ei wneud ac roedd yn fodlon bod staff yn gwneud gwaith ardderchog. Tynnodd y Cydlynydd Archwilio sylw'r aelodau at friff gwybodaeth y Pwyllgor (a ddosbarthwyd yn flaenorol) a oedd yn rhoi datganiad gan yr Aelod Arweiniol lle eglurodd wrth ymdrechu i gydymffurfio â dangosyddion perfformiad, y byddai achlysuron weithiau pan oedd yn fwy pwrpasol i oedi ychydig yn hytrach na symud ymlaen i gynhadledd heb gyfranogiad chwaraewr allweddol. Nododd y Pwyllgor eu bod yn fodlon â'r eglurhad a roddwyd.

Dywedodd y Cynghorydd Gareth Sandilands fod y Grŵp Buddsoddi Strategol wedi cyfarfod i drafod y Rhaglen Moderneiddio Addysg gyda phopeth yn mynd yn ôl y cynllun.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Richard Davies ei bresenoldeb yn y Grŵp Tasg a Gorffen Oedolion a Gofal Cymdeithasol (roedd diweddariad wedi ei ddarparu o dan yr eitem flaenorol).

***PENDERFYNWYD*** *y dylid nodi'r adroddiadau llafar oddi wrth aelodau a fu'n mynychu cyfarfodydd.*

Daeth y cyfarfod i ben am 11.25 a.m.